# 22 Y FENYW FAIN

## (*THE SLENDER LASS*)




2. 'Roedd yn ei chorff yn gymwys
Ac yn ei gwast yn fain,
O, a'i dwylo bach cyn wynned,
O, a'i dwylo bach cyn wynned, O, (x 2)
Â blodau pigau'r drain.

3. Ar ôl i ni briodi,
Cael dau o blantws bach;
Fe fydd un yn uwch na'r gadair,
Fe fydd un yn uwch na'r gadair, O, (x 2)
A'r llall yn damaid bach.

Tâp AWC 609. Recordiwyd 21.9.63 gan William Rowlands (gweithwr glo, g. 1888), Dol-werdd, Treletert, sir Benfro. Clywodd WR y gân hon yn ardal Llanychâr, ger Abergwaun, pan oedd tua 17 oed.